

## Tasg 2

# Y gêm rygbi


Dyma beth mae Carwyn yn dweud am y gêm rygbi.

1. Rhowch y brawddegau yn y drefn gywir.

	Y drefn gywir
Roeddwn i mewn ciw wrth y fan cŵn poeth.	1.
Cerddais i a syrthiais i ar y sôs coch.	2.
Syrthiodd pawb i lawr y grisiau – fel dominos.	3.
Talais i am y byrger.	4.
Syrthiodd sôs coch ar y llawr.	5.
Roedd e'n flasus iawn.	6.
Prynais i'r byrger.	7.
Syrthiais i i mewn i'r ciw.	8.
Bwytais i ddarn o'r byrger.	9.

Ewch i'r adran **Atebion**.

Ewch i'r dudalen nesaf.



2. Mae Aled yn siarad â rhywun arall am beth ddigwyddodd i Carwyn. Newidiwch beth mae Carwyn yn dweud i beth mae Aled yn dweud ...

Mae Carwyn yn dweud ...	Mae Aled yn dweud ...
Roeddwn i mewn ciw. (I was in a queue.)	1.  (Carwyn was in a queue.)
Prynais i'r byrger. (I bought the burger.)	2.  (He bought the burger.)
Talais i am y byrger. (I paid for the burger.)	3.  (He paid for the burger.)
Bwytais i ddarn o'r byrger. (I ate a piece of the burger.)	4.  (He ate a piece of the burger.)
Syrthiais i ar y sôs coch. (I fell on the tomato sauce.)	5.  (He fell on the tomato sauce.)
Syrthiais i i mewn i'r ciw. (I fell into the queue.)	6.  (He fell into the queue.)

Geirfa	
rhywun arall	someone else